# PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL
# DYDD LLUN, 10 MEHEFIN 2024

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Anwen Davies, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Gareth Tudor Jones, Linda Ann Jones, Edgar Wyn Owen, Huw Rowlands, Elfed Williams, Gwynfor Owen, Arwyn Herald Roberts, Angela Russell, Gareth Williams a Hefin Underwood

**Swyddogion:** Gareth Jones (Pennaeth Cynorthwyol Amgylchedd), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD AIL ETHOL Y CYNGHORYDD ELFED WILLIAMS YN GADEIRYDD AR GYFER 2024/25**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD AIL ETHOL Y CYNGHORYDD GWYNFOR OWEN YN IS-GADEIRYDD AR GYFER 2024/25**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Datganodd y Cynghorydd Arwyn Herald Roberts, yn eitem 7 ar y rhaglen fod ganddo fuddiant oherwydd cysylltiad agos â chwmnïau tacsis lleol. Yn dilyn arweiniad gan y Rheolwr Trwyddedu nid oedd yn fuddiant a oedd yn rhagfarnu gan mai diweddariad cyffredinol oedd yma am y polisi. Nid oedd rhaid iddo adael y cyfarfod.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 4ydd o Fawrth 2024 fel rhai cywir

**7. COFNODION IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion yr Is Bwyllgorau Trwyddedu

Cyffredinol a gynhaliwyd 20fed o Fawrth 2024 a'r 9fed o Ebrill 2024

## 8. DIWEDDARIAD AR Y POLISI AR GYFER HURIO PREIFAT A CHERBYDAU HACNI

Cyflwynodd y Rheolwr Trwyddedu ddiweddariad ar lafar ar y polisi hurio preifat a cherbydau hacni. Amlygodd bod y polisi cyfredol yn dameidiog ac yn cynnwys nifer o bolisïau ac felly'r bwriad yw creu un ddogfen. Ategodd nad oedd cylch penodol ar gyfer adolygu'r polisi, ond bod rhai agweddau angen eu diweddaru. Nododd bod oediad yn y gwaith oherwydd bod disgwyl i Lywodraeth Cymru adolygu deddfwriaeth yn ymwneud a chysoni rheoliadau'r diwydiant tacsi. Er hynny, derbyniwyd datganiad gan Lywodraeth Cymru yn nodi na fyddai'r ddeddfwriaeth yn dod i rym yn fuan ac felly rhoddwyd cyfarwyddyd i'r Awdurdodau Lleol gysoni eu polisïau eu hunain.

O ran amserlen, nodwyd, unwaith bydd y polisi wedi ei adolygu, bydd angen cynnal ymgynghoriad gyda'r cyhoedd a chyflwyno'r polisi drafft i'r Pwyllgor i amlygu unrhyw addasiadau. Amlygwyd er bod rhai agweddau megis ystyried oedran cerbyd tacsi, hyfforddiant diogelu, cyflwyno DBS ffres bob tair blynedd a bod gyrwyr dros 65oed yn cael prawf meddygol bob blwyddyn eisoes mewn lle ac yn cael eu gweithredu, bod angen eu cynnwys yn y polisi. O ganlyniad, ni fydd yr ychwanegiadau i'r polisi yn newydd i'r diwydiant.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth ddilynol

- bod angen ceisio annog cael gwell darpariaeth yng nghefn gwald
- bod y ddogfen 'Meini Prawf Addasrwydd ar gyfer Gyrwyr a Gweithredwyr' wedi ei chyhoeddi yn 2014, ac felly wedi dyddio ac angen ei haddasu

Mewn ymateb i'r sylwadau, nododd y Rheolwr Trwyddedu mai anodd yw dylanwadu ar y nifer i ddod i mewn i'r diwydiant yn enwedig gyda rhai yn cael eu denu fwyaf at waith trefol oherwydd nad oedd cysondeb gwaith yng nghefn gwald. Er hynny, yr Uned Trwyddedu yn ceisio annog gwell darpariaeth yng nghefn gwlad.

Derbyniwyd y sylw bod y ddogfen meini prawf wedi dyddio ac yn cynnwys rhai agweddau hŷn fydd yn cael eu hadolygu. Er hynny, nodwyd, er bod y ddogfen wedi ei chyhoeddi yn 2014, bod y cynnwys yn parhau i basio'r prawf. Un elfen fydd angen ei gynnwys yn y ddogfen fydd pwyntiau gyrru.

Mewn ymateb i gwestiwn os yw gyrwyr bysus yn gorfod cael eu hasesu drwy'r un meini prawf, nodwyd bod ceisiadau gyrwyr bysus yn cael eu caniatáu drwy gyfundrefn wahanol (Comisiynydd Traffig Cymru). Ategwyd bod y polisi trwyddedu yn benodol ar gyfer cerbyd 8 neu lai o seddi.

Diolchwyd am y diweddariad.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 y.b. a daeth i ben am 10.25 y.b.

**CADEIRYDD**